# Coeden Benderfyniadau 1: A yw eich cynnyrch yn gynnyrch cyfansawdd?

**PWYSIG:** Dylid defnyddio hwn ar gyfer mewnforion o'r Undeb Ewropeaidd i Brydain yn unig. Mae rheolau gwahanol yn berthnasol ar gyfer allforion o Brydain i'r Undeb Ewropeaidd.

**Sylwch:** Rhaid i fewnforiwr ddilyn y goeden benderfyniadau o'r dechrau i'r diwedd i ddeall y gofynion mewnforio llawn ar gyfer ei gynnyrch.

**Dechrau**

1. Ydych chi'n mewnforio cynnyrch cyfansawdd?

Ddim yn gwybod →

2. Ydych chi'n mewnforio bwyd sydd wedi ei fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl? Os ydych – ewch i flwch 3.

NA → 2.1 **Nid yw hwn yn gynnyrch cyfansawdd.** Gall fod yn sgil-gynnyrch anifail (ABP) (e.e. bwyd anifeiliaid anwes).

YDW →

3. A yw'r holl gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn y cynnyrch yn cael eu prosesu? Os ydyw – ewch i flwch 4.

NA → 3.1 **Nid yw hwn yn gynnyrch cyfansawdd.** Mae'n gynnyrch sy'n dod o anifeiliaid (POAO) (e.e. cyw iâr amrwd â blas, caws heb ei basteureiddio, swshi pysgod amrwd).

3.2 Mae 'prosesu' yn golygu unrhyw weithred sy'n newid y cynnyrch cychwynnol yn sylweddol, gan gynnwys gwresogi, gyrru drwy fwg, halltu, aeddfedu, sychu, marinadu, echdynnu, allwthio neu gyfuniad o'r prosesau hynny. Gweler y canllawiau pellach yma REUL 2007/275 erthygl 2 (c) ac yma pwynt 7 o Atodiad 1 REUL 853/2004. Sylwch nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r holl weithgareddau prosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am becynnau priodol/addas ar gyfer cynhyrchion, dyma ddolen.

YDI →

4. A yw'r cynnyrch yn cynnwys cynnyrch planhigion? Os ydyw – ewch i flwch 5.

NA → 4.1 **Nid yw hwn yn gynnyrch cyfansawdd.** I nodi a yw prosesu'r cynnyrch anifeiliaid yn golygu ychwanegu cynnyrch planhigion (e.e. olew) fel rhan o'r prosesu, yna nid yw'r cynhyrchion hyn yn dod yn gynhyrchion cyfansawdd yn awtomatig a byddent yn parhau i fod yn gynhyrchion llaeth neu'n gynhyrchion cig, ac ati.

YDI →

5. A yw'r cynnyrch planhigion yn gwneud unrhyw beth ar wahân i hwyluso prosesu neu ychwanegu nodweddion arbennig? Os ydyw, ewch i flwch 6.

NA → 5.1 **Nid yw hwn yn gynnyrch cyfansawdd** oherwydd rhaid i'r cynnyrch planhigion fod yn rhan annatod o brosesu'r cynnyrch (h.y. nid dim ond am resymau cyflasynnau neu weithgynhyrchu)

YDI →

6. Mae hwn yn gynnyrch cyfansawdd (e.e. lasagne, pizza, gwirodlynnau hufen, burrito cyw iâr). Ewch i CP2 - Coeden Benderfyniadau ar gyfer Eithrio Cynnyrch Cyfansawdd neu Beidio â'u Heithrio

(2.1, 3.1, 4.1, 5.1 →) Edrych ar ganllawiau ar gyfer mewnforion POAO (cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid) a mewnforion ABP (sgil-gynnyrch anifeiliaid)

Mae'r goeden benderfyniadau hon er gwybodaeth yn unig ac nid oes iddi unrhyw werth cyfreithiol. Darllenwch y ddeddfwriaeth yn ofalus bob amser cyn i chi fewnforio cynnyrch ac os ydych chi'n dal yn ansicr, holwch Awdurdod Iechyd y Porthladd neu'r Awdurdod Lleol yn y porthladd y byddwch chi'n ei ddefnyddio.

Department for Environment Food & Rural Affairs

# Coeden Benderfyniadau 2: A yw eich cynnyrch cyfansawdd wedi ei eithrio rhag rheolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ffiniau neu'n ddarostyngedig iddynt?

**Sylwch:** Rhaid i fewnforiwr ddilyn y goeden benderfyniadau o'r dechrau i'r diwedd i ddeall y gofynion mewnforio llawn ar gyfer ei gynnyrch.

**Dechrau**

1. A yw'r cynnyrch cyfansawdd yn cynnwys cynhyrchion cig wedi eu prosesu? Os nad ydyw, ewch i 2.

YDI → 1.1 Mae eich cynnyrch **yn ddarostyngedig i reolaethau SPS** ar y ffin. Edrychwch ar y canllawiau mewnforio cynhyrchion cyfansawdd ar GOV UK i weld y camau nesaf.

NA →

2. A yw eich cynnyrch ar restr Atodiad II o gynhyrchion wedi'u heithrio? Gwiriwch y tabl. Os ydyw, ewch i 3.

NA → 2.1 A yw'r cynnyrch yn bodloni'r gofynion yn Erthygl 6 o Benderfyniad yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir 2007/275? (Tudalen 3) Os ydyw, ewch i 4.

NA → 1.1

YDI → 3.

YDI →

3. A yw'r cynnyrch wedi ei brosesu sy'n dod o anifeiliaid (POAO) yn dod o wlad sydd â chynllun gweddillion cymeradwy? RCP o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd neu RCP yr Undeb Ewropeaidd ac EFTA Os ydyw, ewch i 4.

NA → 3.1 ARHOSWCH Ni ellir rhoi eich cynnyrch cyfansawdd ar y farchnad.

YDI →

4. **Nid yw eich cynnyrch yn ddarostyngedig i reolaethau SPS ar y ffin.** Nid oes angen hysbysiad mewnforio ar gynhyrchion cyfansawdd wedi eu heithrio sy'n cydymffurfio â gofynion Erthygl 6 a/ neu Atodiad II a gallant fynd i mewn drwy unrhyw borthladd, maes awyr neu orsaf drenau.

Mae'r goeden benderfyniadau hon er gwybodaeth yn unig ac nid oes iddi unrhyw werth cyfreithiol. Darllenwch y ddeddfwriaeth yn ofalus bob amser cyn i chi fewnforio cynnyrch ac os ydych chi'n dal yn ansicr, holwch Awdurdod Iechyd y Porthladd neu'r Awdurdod Lleol yn y porthladd y byddwch chi'n ei ddefnyddio.

Department for Environment Food & Rural Affairs

# O dan Erthygl 6 o Benderfyniad yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir 2007/275

**Rhaid i gynhyrchion cyfansawdd wedi eu heithrio fodloni pob un o'r canlynol:**

- Yn cynnwys **llai na 50%** o unrhyw gynnyrch wedi ei brosesu sy'n dod o anifeiliaid (POAO) – i nodi os yw'r holl POAO sydd wedi eu prosesu yn y cynnyrch terfynol yn 50% neu'n fwy, nid ydynt wedi eu heithrio o'r gwiriadau.
- **yn sefydlog ar y silff ar dymheredd amgylchynol neu wedi eu coginio** / yn amlwg wedi cael hynny wrth weithgynhyrchu proses goginio neu wresogi gyflawn drwy gydol eu sylwedd, fel bod unrhyw gynnyrch crai yn cael ei ddadnatureiddio.
- **wedi eu labelu ar gyfer ei fwyta gan bobl.**
- **wedi eu pacio neu eu selio'n ddiogel mewn cynwysyddion glân.**
- ynghyd â **dogfen fasnachol** wedi ei labelu yn Saesneg, i roi gwybodaeth am natur, maint a nifer pecynnau'r cynhyrchion cyfansawdd, y wlad maent yn tarddu ohoni, y gwneuthurwr, a'r cynhwysion.
- Dim ond o'r gwledydd a restrir yn Atodiad I i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 605/2010 (neu ddiweddariadau iddo) y bydd unrhyw gynnyrch llaeth yn dod a gynhwysir mewn unrhyw gynnyrch cyfansawdd, gan gynnwys cynhyrchion a restrir yn Atodiad II, ac a drinnir fel y darperir ar eu cyfer.

Rhestr o wledydd cymeradwy:

- Gwledydd yr Undeb Ewropeaidd ac EFTA a gymeradwywyd i allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid i Brydain
- Gwledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd a gymeradwywyd i allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid i Brydain

Canllawiau:

- Mewnforio cynhyrchion cyfansawdd o'r Undeb Ewropeaidd i Brydain - GOV.UK
- https://www.food.gov.uk/business-guidance/importing-composite-products

Department
for Environment
Food & Rural Affairs

# Atodiad II: Rhestr o gynhyrchion cyfansawdd nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaethau swyddogol fel y cyfeirir atynt ym mhwynt (b) o Erthygl 6(1)

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn nodi rhestr o gynhyrchion cyfansawdd yn ôl enw'r nwyddau sy'n cael eu defnyddio yn yr Undeb nad oes angen eu cyflwyno i reolaethau swyddogol mewn safle rheoli ar y ffin.

Nodiadau sy'n ymwneud â'r tabl: Colofn (1) — Cod CN Mae'r golofn hon yn dangos y cod CN. Mae'r CN, a sefydlwyd gan Reoliad (EEC) Rhif 2658/87, yn seiliedig ar y System Ryngwladol ar gyfer Disgrifiadau a Chodau Nwyddau wedi eu Cysoni (HS) a luniwyd gan y Cyngor Cydweithredu Tollau, sydd bellach yn cael ei alw'n Sefydliad Tollau'r Byd (WCO), a fabwysiadwyd gan y Confensiwn Rhyngwladol, a ddaeth i ddiwedd ei daith ym Mrwsel ar 14 Mehefin 1983 ac a gymeradwywyd ar ran y Gymuned Economaidd Ewropeaidd gan Benderfyniad 87/369/EEC ('y Confensiwn HS').

Mae'r CN yn atgynhyrchu penawdau ac is-benawdau yr HS i chwe digid, gyda dim ond y seithfed a'r wythfed ffigur yn creu is-benawdau pellach sy'n benodol iddo. Pan ddefnyddir cod pedwar digid: oni nodir yn wahanol, nid yw'n ofynnol i bob cynnyrch cyfansawdd sydd â'r pedwar digid hyn wedi eu rhagddodi neu wedi eu cynnwys ynddynt gael eu cyflwyno i reolaethau swyddogol mewn safle rheoli ar y ffin.

Pan mai dim ond cynhyrchion penodol a bennir o dan unrhyw god pedwar, chwech neu wyth digid sy'n cynnwys cynhyrchion anifeiliaid ac nad oes is-adran benodol o dan y cod hwn yn bodoli yn y CN, mae'r cod wedi ei farcio ag ex (er enghraifft, ex 2001 90 65: gwiriadau milfeddygol nad oes eu hangen ar gyfer y cynhyrchion a amlinellir yng Ngholofn (2)).

Colofn (2) — Mae'r golofn hon yn rhoi manylion y cynhyrchion cyfansawdd a gwmpesir gan y rhanddirymiad o reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin. Pan fo angen, rhaid i staff swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin asesu cynhwysion cynnyrch cyfansawdd a phennu, a yw'r cynnyrch anifeiliaid sydd wedi ei gynnwys yn y cynnyrch cyfansawdd wedi ei brosesu'n ddigonol er mwyn peidio â mynnu'r gwiriadau swyddogol y darperir ar eu cyfer yn neddfwriaeth yr Undeb.

Department
for Environment
Food & Rural Affairs

| Codau CN | Esboniadau |
|---|---|
| 1) | (2) |
| 1704, 1806 20, 1806 31, 1806 32, 1806 90 11, 1806 90 19, 1806 90 31, 1806 90 39, 1806 90 50 | Melysion (gan gynnwys pethau da) a siocled, sy'n cynnwys llai na 50% o gynhyrchion llaeth ac wyau wedi eu prosesu ac sy'n cael eu trin fel y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 6(1)(a) o'r Penderfyniad hwn. |
| 1902 19, 1902 30, 1902 40 | Pasta a nwdls heb eu cymysgu na'u llenwi â chynnyrch cig wedi ei brosesu; sy'n cynnwys llai na 50% o gynhyrchion llaeth ac wyau wedi eu prosesu a'u trin fel y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 6(1)(a) o'r Penderfyniad hwn. |
| 1905 10, 1905 20, 1905 31, 1905 32, 1905 40, 1905 40 10, 1905 90 10, 1905 90 20, 1905 90 30, 1905 90 45, 1905 90 55, 1905 90 60, ex 1905 90 90; | Bara, cacennau, bisgedi, wafflau a wafferi, bisgedi caled, bara wedi ei dostio a chynhyrchion tebyg wedi eu tostio; sy'n cynnwys llai na 20% o gynnyrch llaeth ac wy wedi eu prosesu ac sy'n cael eu trin fel y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 6(1)(a) o'r Penderfyniad hwn. Mae 1905 90 yn cynnwys cynhyrchion sych a brau yn unig. |
| ex 2001 90 65, ex 2005 70 00 ex 16 04 | Olifau wedi eu llenwi gyda llai nag 20 % o bysgod. Olifau wedi eu llenwi gyda mwy nag 20 % o bysgod |
| ex 2104 10 ac ex 2104 20 | Stociau cawl a chyflasynnau wedi eu pecynnu ar gyfer y defnyddiwr olaf, sy'n cynnwys llai na 50% o olewau pysgod, powdrau pysgod neu echdynion pysgod ac sy'n cael eu trin fel y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 6(1)(a) o'r Penderfyniad hwn |
| ex 2106 10, ex 2106 90 | Ychwanegion bwyd wedi eu pecynnu ar gyfer y defnyddiwr olaf, sy'n cynnwys symiau bach (cyfanswm llai nag 20 %) o gynhyrchion anifeiliaid wedi eu prosesu (gan gynnwys glwcosamin, condroitin a/neu chitosan) ac eithrio cynhyrchion cig. |

# Atodiad II: Tabl cynhyrchion cyfansawdd nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaethau swyddogol fel y cyfeirir atynt ym mhwynt (b) o Erthygl 6(1)